**Strategaeth Cartrefi Gwag**

O ganlyniad i'r penderfyniad a gafodd ei wneud gan y Cabinet ar 29 Mehefin 2026, mae'r Cyngor yn cynnal ymgynghoriad 6 wythnos ar ei Strategaeth Cartrefi Gwag newydd, Adfer Cartrefi Gwag; Bywydau Llewyrchus, ar gyfer 2026-2031. Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ddydd Llun 6 Gorffennaf 2026 ac yn dod i ben ddydd Sul 16 Awst 2026.

Mae'r Strategaeth ddrafft yn nodi sut, dros y 5 mlynedd nesaf, y bydd y Cyngor yn gweithio gyda landlordiaid, trigolion a rhanddeiliaid eraill i lywio a hwyluso'r broses o ddefnyddio cartrefi gwag eto. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau i fynd i'r afael â chartrefi gwag ledled RhCT a chynyddu nifer y tai sy'n cael eu defnyddio eto.

Mae eiddo gwag y sector preifat i bob pwrpas yn adnodd diffrwyth, yn gost ariannol i'r perchnogion a'r Cyngor, ac mewn sawl achos, yn gyfle a gollwyd i ddarparu tai fforddiadwy mawr eu hangen. Nid yn unig maen nhw'n wastraff ar adnodd gwerthfawr, gallan nhw hefyd ddifrodi golwg cymunedau ac achosi trallod i drigolion oherwydd hynny. Yn ogystal â hynny, gallan nhw ddenu trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Caiff y Strategaeth ei chefnogi gan y pedwar amcan a ganlyn a fydd yn llywio ei chyflawniad:

1. Gwella partneriaethau â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r sector preifat a fydd yn helpu i ddefnyddio cartrefi gwag eto.

2. Rhoi cyngor, cymorth a chefnogaeth ariannol i berchnogion eiddo gwag er mwyn cynyddu nifer y cartrefi gwag sy'n cael eu defnyddio eto.

3. Cyflwyno pwerau gorfodi cymesur ac effeithiol er mwyn gallu defnyddio cartrefi gwag eto.

4. Cefnogi adfywio a llesiant cymunedol drwy ddarparu ymyraethau wedi'u targedu mewn perthynas â chartrefi gwag ar gyfer y farchnad dai mewn gwahanol ardaloedd a gwella deilliannau cymunedol.

Mae'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle i drigolion wneud sylwadau a chyfrannu at ddrafft terfynol y Strategaeth.

Mae'r ddogfen ymgynghori i'w gweld ar y dudalen yma.

Os hoffech chi gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, mae modd gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd:

**Ar-lein**

Cwblhewch yr holiadur ar-lein - https://RCTCBC.welcomesyourfeedback.net/Empty_Homes_Strategy

**E-bost**

Anfonwch e-bost aton ni - ymgynghori@rctcbc.gov.uk

**Ffôn**

Pe byddai'n well gyda chi rannu'ch barn drwy siarad â rhywun, neu os oes angen copïau papur o'r wybodaeth arnoch chi,

Ffoniwch - 01443 425014 - rhwng 9am a 5pm dydd Llun i ddydd Gwener

**Ysgrifennwch aton ni:**

**Rhadbost RUGK-EZZL-ELBH**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Llawr 3

2 Llys Cadwyn

Pontypridd

CF37 4TH